



**ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES**
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru ar ddeall data ysgolion



Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 238/2018

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2018

Yn disodli dogfen ganllawiau: rhif 197/2016

Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru ar ddeall data ysgolion

Cynulleidfa

Cyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru; awdurdodau lleol; awdurdodau esgobaethol; Llywodraethwyr Cymru ac unrhyw gorff arall sy'n darparu hyfforddiant i lywodraethwyr.

Trosolwg

Mae cynnwys y canllawiau hyn yn ymwneud â darpariaethau yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013.

Camau i'w cymryd

Rhaid i awdurdodau lleol ac unrhyw gorff arall sy'n darparu hyfforddiant i lywodraethwyr ystyried cynnwys y ddogfen ganllawiau hon wrth lunio eu rhaglenni gorfodol ar ddeall data ysgolion.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Yr Is-Adran Effeithiolrwydd Ysgolion

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 251017

e-bost: SMED2@llyw.cymru



[@LIC_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)



[Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/addysgasgiliau

Dogfennau cysylltiedig

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2014

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Rhan 1: Cynnwys gorfodol ar gyfer ysgolion a gynhelir ac eithrio ysgolion arbennig	3
Pam y mae angen data	3
Y mathau o ddata sydd ar gael i lywodraethwyr	3
Sut a phryd y darperir data i ysgolion	4
Deall data a defnyddio data i wneud gwelliannau	4
Y System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion	5
Asesiadau o berfformiad	6
Data perfformiad deilliannau diwedd y Cyfnod Sylfaen	6
Data perfformiad deilliannau Cyfnodau Allweddol 2 a 3	7
Data perfformiad Cyfnod Allweddol 4	7
Data perfformiad disgyblion 17 oed	7
Presenoldeb	8
Data teuluoedd o ysgolion	8
Ystyried data perfformiad rhwng ysgolion	9
Y math o gwestiynau y dylai llywodraethwyr eu gofyn am ddata perfformiad a phresenoldeb	9
Rhan 2: Cynnwys gorfodol ar gyfer ysgolion arbennig	12
Ffynonellau cyngor a chymorth	12
Atodiad: Systemau marcio ac asesu cyffredin	13

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn pennu cwmpas a chynnwys yr hyfforddiant ar ddeall data ysgolion ar gyfer llywodraethwyr ysgol yng Nghymru. Disgwylir i lywodraethwyr gael hyfforddiant yn y meysydd a nodir yn y ddogfen hon sy'n berthnasol i'w hysgolion.

Mae Rhan 1 yn amlinellu cwmpas a chynnwys gorfodol yr hyfforddiant ar ddeall data ysgolion ar gyfer ysgolion a gynhelir.

Mae Rhan 2 yn amlinellu cwmpas a chynnwys gorfodol yr hyfforddiant ar ddeall data ysgolion ar gyfer ysgolion arbennig.

Bydd yr hyfforddiant yn sicrhau bod llywodraethwyr yn deall data ar berfformiad ysgolion, a bod ganddynt yr wybodaeth y mae ei hangen i allu gofyn cwestiynau perthnasol. Byddant wedyn yn fwy effeithiol wrth gyflawni eu rôl o godi safonau mewn ysgolion.

Mae'r ddogfen hon ond yn nodi'r meysydd y dylid eu cwmpasu gan yr awdurdodau lleol wrth ddarparu hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru ar ddeall data perfformiad ysgolion. Mater i'r awdurdodau lleol fel darparwr yr hyfforddiant fydd penderfynu ar fanylion hyfforddiant o'r fath.

Nid yw'r ddogfen hon yn berthnasol i unrhyw lywodraethwr a gwblhaodd hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion cyn y daeth Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2016 i rym, fel y nodwyd yn nogfen 2014 (Dogfen ganllaw rhif 140/2014: 140/2014).

Rhan 1: Cynnwys gorfodol ar gyfer ysgolion a gynhelir ac eithrio ysgolion arbennig

Dylai'r rhaglen hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr ysgolion a gynhelir gynnwys y meysydd canlynol:

Dylai Llywodraethwyr:

- ddeall y gwahaniaeth rhwng 'Cyflawniad' a 'Cyrhaeddiad':
 - Cyflawniad: pa mor dda y mae disgyblion yn ei wneud, yn gymharol i'w hoedran a'u gallu asesedig
 - Cyrhaeddiad: pa mor dda y mae disgyblion yn ei wneud, a fesurir yn erbyn prawf safonedig, ee Lefel 4 mewn Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2 neu ar ddiwedd blwyddyn 6 o'r cwricwlwm cenedlaethol neu A* i C mewn Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4.
- deall 'Dibynadwyedd' a 'Dilysrwydd':
 - Mae gwybodaeth ddibynadwy yn wybodaeth y gellir ymddiried ynddo
 - Mae gwybodaeth ddilys yn rhesymegol ac yn y cyd-destun cywir
- deall pa grwpiau o ddisgyblion sydd mewn perygl, yn ystadegol, o dangyflawni.

Pam y mae angen data

- Pwysigrwydd data o ran helpu llywodraethwyr i gyflawni eu rolau'n effeithiol ac asesu lle mae angen gwneud gwelliannau mewn ysgolion i godi safonau.
- Y gofynion sy'n rheoleiddio sut mae llywodraethwyr yn defnyddio data ar berfformiad ysgolion.

Mae Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011¹ yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu bennu targedau ar gyfer disgyblion ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 ac mewn perthynas â pherfformiad ac absenoldeb. Mae hyn yn cyd-fynd â'r polisi hunanwella ysgolion.

Y mathau o ddata sydd ar gael i lywodraethwyr

- Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 a phresenoldeb
- Asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3.
- Asesiadau athrawon cenedlaethol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3.

¹ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1945/contents/made/welsh>

- Asesiadau athrawon o fewn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3.
- Rhyngwladol, gan gynnwys PISA
- Canlyniadau TGAU a chanlyniadau galwedigaethol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 - ysgol, awdurdod lleol, a chenedlaethol.
- Canlyniadau Safon Uwch a chanlyniadau galwedigaethol yn 17 oed - ysgol, awdurdod lleol, a chenedlaethol.
- Y System Genedlaethol ar gyfer Categoriaddio Ysgolion.
- Presenoldeb - ysgol, teulu, awdurdod lleol, a chenedlaethol.
 - Meincnodi presenoldeb - ysgol (o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer cohort), ysgol, teulu, awdurdod lleol, a chenedlaethol.

Sut a phryd y darperir data i ysgolion

Mae'r holl ddata'n cael eu rhoi i ysgolion bob blwyddyn ar ffurf adroddiad, a hynny yn ôl yr amserlen a bennwyd.

- Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion cynradd, data perfformiad Cyfnod Allweddol 4, a phroffiliau cyd-destunol.
- Adroddiadau sy'n cynnwys dadansoddiad o werth ychwanegol - mae data gwerth ychwanegol cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd ar gael o ddiwedd mis Ionawr.
- Crynodeb o adroddiadau perfformiad ysgolion uwchradd - data dros dro Cyfnod Allweddol 4 ym mis Hydref a data terfynol ym mis Rhagfyr.
- Y System Genedlaethol ar gyfer Categoriaddio Ysgolion.

Deall data a defnyddio data i wneud gwelliannau

- Sut mae'r data'n cael eu cyflwyno – fel ffigurau, graffiau, yn ysgrifenedig neu ar lafar.
- Pwysigrwydd crynhoi gwybodaeth ac ystyried yr holl ddata/gwybodaeth a gyflwynir cyn dod i gasgliadau.
- Pwysigrwydd gofyn cwestiynau neu ofyn am eglurhad a herio'r data er mwyn deall eu hystyr yn llawn.
- Ymwybyddiaeth o gyfyngiadau data a 'rhybuddion buddiol' o ran defnyddio data.
- Y gwahaniaeth rhwng newid canrannol a newid pwynt canran.

- Nodi'r goblygiadau posibl i ysgolion a allai ddeillio o'r data, ac unrhyw gamau y gellid eu cymryd.
- Gwerthuso effaith camau gweithredu a strategaethau ar ddeilliannau.
 - Sicrhau bod llywodraethwyr yn defnyddio data'n gynhyrchio i ystyried beth a ddysgwyd a nodi'r hyn sydd wedi gwella neu angen ei wella.
 - Dylai llywodraethwyr ddeall cryfderau a gwendidau'r canlyniad ar gyfer cohort o ddisgyblion mewn un flwyddyn benodol, o'i gymharu â data sy'n dangos tueddiadau dros amser ar gyfer yr un cohort.

Estyn

Dylai llywodraethwyr bob amser gael yr un mynediad at ddata a gwybodaeth o leiaf â'r hyn a ddarperir i Arolygwyr Estyn a bod yn ymwybodol o'r pwyslais a roddir ar berfformiad yr ysgol mewn rhai meysydd.

Pwysigrwydd data mewnol ysgolion

Dylai fod gan bob ysgol bolisi marcio ac asesu. Dylai hyn dracio perfformiad pob disgybl unigol a gall gynnwys targedau a bennwyd gan yr athrawon neu gan y disgyblion a'r athrawon ar y cyd. Yn unol â'r rheoliad diogelu data, ni chaiff data am ddisgyblion unigol eu rhannu â'r llywodraethwyr, ond gall staff uwch nodi patrymau lle mae targedau a gwelliannau'n cael eu cyflawni a lle ceir amrywiadau. Gallai hyn helpu i nodi amrywiadau ym mherfformiad disgyblion o fewn yr ysgol a lle mae'n bwysig rhannu arfer da.

Ystyried data perfformiad o fewn yr ysgol er mwyn gwneud gwelliannau:

- cymharu data ar rhwng dosbarthiadau ac adrannau pwnc
- tracio cynnydd cohortau o ddisgyblion a disgyblion unigol tracio cynnydd disgyblion neu grwpiau o ddisgyblion a allai fod mewn perygl o dangyflawni
- tracio tueddiadau dros dair blynedd o leiaf a'u cymharu â thargedau (ar gyfer cohortau a disgyblion unigol).

Y System Genedlaethol ar gyfer Categorioreiddio Ysgolion

Mae angen i lywodraethwyr ddeall ystyr y categori a roddwyd i'w hysgol a pha gefnogaeth sydd ar gael i helpu'r ysgol i wella.

Ym mis Ionawr 2015, cyflwynwyd system genedlaethol ar gyfer categororeiddio ysgolion yng Nghymru. Mae'r system hon yn nodi ysgolion yn ôl y lefel o gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, gan ddangos y rheini sydd angen cefnogaeth sylweddol i'r rheini sy'n effeithiol iawn ac yn gallu rhoi cefnogaeth o'r fath. Ym mis Ionawr 2018, cafodd y broses ei haddasu er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar hunanwerthuso.

Ceir cyfarwyddyd pellach yn:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/raisingstandards/schoolcategorisation>

Mae tri cham i'r system hon:

- **Cam un:** Darperir ystod eang o wybodaeth am berfformiad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hunanwerthusiad yr ysgol o'i gallu i wella mewn perthynas ag addysgu a dysgu.
- **Cam dau a tri:** caiff y rhain eu harwain gan y consortia ac maent yn ystyried hunanwerthusiad yr ysgol a gallu a chapasiti'r ysgol i hunanwella mewn perthynas ag arweinyddiaeth ac addysgu a dysgu.

Mae'r categori terfynol yn god lliw sy'n dangos lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgol ac mae'n arwain at raglen wedi'i theilwra o ran cefnogaeth, her ac ymyrraeth. Y categorïau yw gwyrdd, melyn, oren neu goch (mae angen y gefnogaeth fwyaf ar yr ysgolion coch a'r gefnogaeth leiaf ar yr ysgolion gwyrdd).

Mae canlyniadau llawn y system gategoreiddio ar gael ar wefan Fy Ysgol Leol:

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Asesiadau o berfformiad

Cynhelir asesiadau ar gyfer y gwahanol gyfnodau o addysg orfodol yng Nghymru – y Cyfnod Sylfaen, Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 ac addysg ysgol ôl-16 nad yw'n orfodol. Bydd angen i lywodraethwyr fod yn ymwybodol o'r data perthnasol ar gyfer eu hysgol ac yn eu deall:

Data perfformiad deilliannau diwedd y Cyfnod Sylfaen

- Sut mae perfformiad yn cael ei asesu.
- Asesiadau athrawon ar gyfer y 7 maes dysgu.
 - Sut mae data'n cael eu cyflwyno ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar gyfer ysgolion unigol, ar gyfer yr holl ddisgyblion, o'i gymharu â data ar gyfer Cymru gyfan.
- Sut mae data'n cael eu cyflwyno ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar gyfer ysgolion unigol, ar gyfer grwpiau perthnasol o ddisgyblion ee bechgyn, merched, disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, o'i gymharu â'r data ar gyfer Cymru gyfan.
- Dangosydd y Cyfnod Sylfaen a'r lefelau a ddisgwylir.
- Gwybodaeth gyd-destunol.
- Meincnodi ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Data perfformiad deilliannau Cyfnodau Allweddol 2 a 3

- Sut mae perfformiad yn cael ei asesu.
- Sut mae data'n cael eu cyflwyno ar ddiwedd pob Cyfnod Allweddol ar gyfer ysgolion unigol, ar gyfer yr holl ddisgyblion, mewn perthynas â'r Gymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth a'r Dangosydd Pynciau Craidd, o'i gymharu â data Cymru gyfan.
- Sut mae data'n cael eu cyflwyno ar ddiwedd pob Cyfnod Allweddol ar gyfer ysgolion unigol, ar gyfer grwpiau perthnasol o ddisgyblion ee bechgyn, merched, disgyblion sy'n gymwys i gael prydau am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mewn perthynas â'r Gymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth a'r Dangosydd Pynciau Craidd, o'i gymharu â data Cymru gyfan.
- Y Dangosydd Pynciau Craidd ar gyfer pob Cyfnod Allweddol a'r lefelau a ddisgwylir.
- Sut mae data asesiadau darllen a rhifedd yn cael eu defnyddio i gefnogi datblygiad dysgwyr.
 - Data ar gyfer pynciau nad ydynt yn bynciau craidd.
 - Data ar berfformiad ysgol dros gyfnod o amser.
- Meincodi ar gyfer prydau ysgol am ddim.
- Gwybodaeth gyd-destunol.

Data perfformiad Cyfnod Allweddol 4

- Sut mae perfformiad yn cael ei asesu.
 - Setiau Data Craidd Cymru Gyfan.
 - Sut mae data'n cael eu cyflwyno ar gyfer yr holl ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 ac ar wahân ar gyfer grwpiau perthnasol o fewn yr ysgol, o'i gymharu â'r data ar gyfer y teulu, yr awdurdod lleol, y rhanbarth a Chymru gyfan.
- Meincodi ar gyfer prydau ysgol am ddim.
- Perfformiad sydd â gwerth ychwanegol.

Data perfformiad disgyblion 17 oed

- Sut mae perfformiad yn cael ei asesu.
- Setiau Data Craidd Cymru Gyfan
- Sut mae data'n cael eu cyflwyno ar gyfer canlyniadau Safon Uwch a chanlyniadau galwedigaethol ar gyfer yr holl ddisgyblion, ac ar wahân ar gyfer grwpiau perthnasol

17 oed o fewn yr ysgol, o'i gymharu â data ar gyfer y teulu, yr awdurdod lleol, y rhanbarth a Chymru gyfan.

Presenoldeb

- Pwysigrwydd presenoldeb yn yr ysgol.
- Sut mae presenoldeb yn cael fonitro mewn ysgolion, esboniad o'r codau cofrestru a ddefnyddir, a sut mae staff ysgolion yn monitro absenoldeb disgyblion.
- Setiau Data Craidd Cymru Gyfan.
- Sut mae data presenoldeb/canlyniadau yn cael eu cyflwyno i'r corff llywodraethu:
 - Targedau a bennwyd ar gyfer presenoldeb, ac absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig.
- A yw'r targedau wedi'u cyrraedd.

Ceir data defnyddiol ar lefel genedlaethol a'r awdurdod lleol ar gyfer pob grŵp oedran yn www.llyw.cymru/ystadegau (dewiswch Addysg a Sgiliau).

Data teuluoedd o ysgolion

- Y meini prawf a ddefnyddir i greu teuluoedd o ysgolion:
 - Cyfrwng y ddarpariaeth o ran ei hiaith.
 - Maint cohortau ysgolion.
 - Cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim.
 - Disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd yng Nghymru.
 - Anghenion Addysgol Arbennig.
 - Disgyblion nad y Gymraeg na'r Saesneg yw eu hiaith gyntaf.
- Sut mae'r data ar deuluoedd o ysgolion yn cael eu cyflwyno.
- Cymharu ysgolion unigol o fewn y teulu, a'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru gyfan.

Ystyried data perfformiad rhwng ysgolion

Cymharu data rhwng dosbarthiadau ac adrannau pwnc.

Pa ddata y mae'n rhaid i'r corff llywodraethu eu darparu i rieni/gofalwyr yn:

- Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr
- Prosbectws yr Ysgol

Pwrpas y gwaith asesu

Mae angen i lywodraethwyr fod yn ymwybodol o natur a phwrpas y systemau asesu ac yn eu deall, yn unol â pholisi asesu eu hysgol.

1. Diagnostig: darparu gwybodaeth er mwyn galluogi athrawon a disgyblion i wella dysgu ac addysgu.
2. Adborth: dylid rhoi adborth ar holl waith y disgyblion ond nid oes o reidrwydd angen marc neu radd.
3. Graddau: i feincnodi cyrhaeddiad neu gyflawniad yn erbyn rhai meini prawf cytûn - gellir eu defnyddio ar gyfer disgyblion unigol, grwpiau o ddisgyblion, yr ysgol neu Gymru.

Systemau marcio ac asesu cyffredin (gweler Atodiad A - taflen).

Y math o gwestiynau y dylai llywodraethwyr eu gofyn am ddata perfformiad a phresenoldeb

- Sut mae niferoedd y disgyblion yn cael eu dangos fel canrannau – beth yw nifer gwirioneddol y disgyblion sy'n cael ei ystyried, ac a yw hyn yn effeithio ar y canlyniadau?
- A yw'r canlyniadau hyn yn well/yn waeth na'r disgwyl?
- A yw'r canlyniadau'n well na'r llynedd?
- A oes unrhyw duedd i'w gweld o ran rhai pynciau? Os felly, pa strategaethau y gallwn ni eu rhoi ar waith i wella canlyniadau yn y meysydd hyn?
- Beth yw natur yr elfen 'gwerth ychwanegol'?
- Beth yw'r lefelau absenoldeb cyffredinol ar gyfer yr ysgol?

- Beth ydym ni'n ei wneud i gefnogi ac annog gwelliant?
- Beth oedd y ffigurau presenoldeb ar gyfer y ddwy flynedd diwethaf?
- A ydym wedi gwella, wedi aros yn ein hunfan, neu wedi gwaethygu? Pam?
- A oes patrwm neu duedd i'w gweld yn y ffigurau?
- A ydym yn rhannu arferion da rhwng pynciau ac ar draws yr ysgol?
- A ydym yn nodi ac yn rhannu arfer da gydag ysgolion eraill?
- A ddigwyddodd unrhyw beth yn ystod y tymor a allai fod wedi effeithio ar y ffigurau presenoldeb, ee tywydd gwael, nifer fawr o achosion o salwch?
- A ystyrir bod disgyblion penodol yn yr ysgol yn dylanwadu ar y lefelau absenoldeb?
- Pa strategaethau sydd wedi eu defnyddio i fynd i'r afael ag absenoldebau ymhlith disgyblion penodol?
- Os ydym yn diystyru'r 5 disgybl gwaethaf, dyweder, o ran absenoldeb, beth fyddai'r ffigurau wedyn?
- Sut ydym yn cymharu ag ysgolion eraill yng Nghymru?
- Sut mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi effeithio ar y canlyniadau?
- A oes gwahaniaeth yn y canlyniadau ar gyfer bechgyn a merched?
- A oes unrhyw beth y dylem wybod am y cohort o ddisgyblion a allai effeithio ar y canlyniadau?
- Pa strategaethau y gallem eu gweithredu i wella canlyniadau'n gyffredinol?
- A yw'r strategaethau sydd eisoes ar waith wedi gwella unrhyw beth?
- Sut mae cyflawniad addysgol grwpiau penodol i ddisgyblion ee plant sy'n derbyn gofal, plant mewn angen, disgyblion o wahanol gefndiroedd ethnig, disgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol, a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, yn cymharu â chyflawniad disgyblion cyffredinol yng Nghymru?
- Sut mae cyrraeddiad addysgol y disgyblion hyn yn cymharu â disgyblion cyffredinol yng Nghymru?

- Pa gefnogaeth ac ymyriadau sydd yn eu lle i helpu i wella cyrhaeddiad addysgol grwpiau penodol o ddisgyblion?
 - Sut mae cyflawniad academiaidd yn amrywio yn ôl cefndir ethnig?
 - Beth yw'r amrywiaeth rhwng grwpiau ethnig a pham? A yw'n gysylltiedig â hawl i gael prydau ysgol am ddim?
 - Beth yw'r gyfradd bresennol o ran cyflawniad addysgol ymhlith dysgwyr sy'n caffael Saesneg neu Gymraeg fel iaith ychwanegol?
 - Pa gefnogaeth sydd yn ei lle i helpu'r dysgwyr hyn sydd â Saesneg neu Gymraeg fel iaith ychwanegol?
 - Sut mae cyflawniad academiaidd yn cymharu ar sail Anghenion Addysgol Arbennig?
 - O ran nodweddion disgyblion, sut mae cyrhaeddiad addysgol dysgwyr yng Nghymru yn cymharu â chyrhaeddiad dysgwyr yn Lloegr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3?
 - Beth yw'r cyfraddau presenoldeb presennol ar gyfer dysgwyr sy'n sipsiwn/teithwyr?
 - Sut ydych yn ymgysylltu â theuluoedd sipsiwn/teithwyr i wella presenoldeb a chodi cyrhaeddiad addysgol?
 - Pa lefel a math o gefnogaeth ydyn ni'n ei chael gan ein cynghorydd her?

Gwnaeth y Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol baratoi cyfres o gwestiynau i lywodraethwyr eu gofyn²:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/140901-questions-for-governors-cy.pdf>

² <http://gov.wales/docs/dcells/publications/140901-questions-for-governors-cy.pdf>

Rhan 2: Cynnwys gorfodol ar gyfer ysgolion arbennig

Mae'r adran hon yn amlinellu cwmpas a chynnwys yr hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion arbennig ar ddeall data ysgolion.

Bydd ysgolion arbennig yn cofnodi ac yn dadansoddi i ba raddau y mae disgyblion yn cyrraedd eu nodau dysgu unigol, a dylai'r llywodraethwyr ddisgwyl i'r ysgol ddarparu gwerthusiad o hyn. Ar sail anghenion mwy penodol unigolion, bydd yr ysgol hefyd yn cofnodi i ba raddau y mae'r disgyblion yn:

- Datblygu ymddygiad aeddfed a phriodol
- Dysgu i ddefnyddio dyfeisiau a systemau cyfathrebu i oresgyn rhwystrau i ddysgu
- Datblygu sgiliau bywyd pwysig
- Datblygu annibyniaeth
- Datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd
- Mynychu'r ysgol
- Defnyddio lleoliadau mwy cynhwysol a phriodol i'w hoedran
- Cyflawni cymwysterau achrededig (sy'n addas i'w anghenion)

Rhaid i'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr ysgolion arbennig gynnwys y meysydd canlynol:

- Cymwysterau achrededig lle'n briodol. Defnyddir amrywiaeth o gyrsiau ar draws ysgolion arbennig yng Nghymru. Er enghraifft, ASDAN (cynradd ac uwchradd), Edexcel (cynradd ac uwchradd), TGAU Lefel Mynediad, City and Guilds Lefel 1, a BTEC Lefel 1.

Ffynonellau cyngor a chymorth

- Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol.
- Y Consortia Rhanbarthol.
- Awdurdodau Esgobaethol.
- Dogfennau canllaw Llywodraeth Cymru.

Atodiad: Systemau marcio ac asesu cyffredin

Gwrthrychol - wedi'i farcio yn erbyn meini prawf clir (cyfeirio at y maen prawf) Gwahaniaethir rhwng yr ymgeiswyr yn ôl eglurder a pha mor anodd yw'r mawn prawf.

Goddrychol - mae'r marciwr, gan ddefnyddio ei brofiad, yn penderfynu ynghylch ansawdd y perfformiad ac yn rhoi marc priodol.

Asesu drwy gyfeirio at y norm - dim ond canran benodol o ddisgyblion all ennill pob gradd neu lefel (mae'n gystadleuaeth felly) a gallai cyflawni'r graddau uchaf fod yn fwy anodd mewn rhai blynyddoedd. Gellir defnyddio hyn i bennu ffiniau graddau ar gyfer arholiadau sy'n cael eu marcio ar sail meini prawf.

Hunanasesu - caiff hyn ei ddefnyddio'n aml i helpu disgyblion i ddysgu; maent yn marcio eu gwaith eu hunain a hynny fel arfer ar sail meini prawf a ddarperir gan yr athro.

Asesu gan gymheiriaid - yn debyg iawn i hunanasesu, ond caiff y gwaith marcio ei wneud gan gyd-ddisgybl.

Asesu gan athrawon - athro/athrawes yn marcio gwaith y disgybl ar sail meini prawf allanol (Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol) neu pennir safonau gan athrawon unigol, adrannau pwnc neu'r ysgol.